OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2986 (Cy.276)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*14 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym - -	*16 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 25(7), 104(1), a (4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) a pharagraffau 4(1)(a) o Atodlen 4, 7(1)(a) a (4) o Atodlen 5, a 10(1)(a) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno a phob pŵer arall sy'n ei alluogi i wneud hynny, drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006 a byddant yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2. Mae Rheoliad 3 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) 1991(**2**) (Cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol o lety diogel mewn cartref plant) wedi'i ddirymu.

(**1**) p.41. Mae'r pwerau'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mewn perthynas â Chymru trosglwyddwyd y swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad, Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'r cyfeiriad at Ddeddf 1989 yn Atodlen 1 iddo.

(**2**) 1991/1505.